

COFNODION Y PWYLLGOR ARCHWILIO

Dyddiad: 8fed Mawrth 2001

Amser: 2pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

Yn bresennol

Aelodau

Janet Davies
(Cadeirydd) Gorllewin De Cymru

Janice Gregory Ogwr

Alison Halford Delyn

Karen Sinclair De Clwyd

Lynne Neagle Tor-faen

Dafydd Wigley Caernarfon

Swyddogion

Syr John Bourn Archwilydd Cyffredinol Cymru

Gillian Body Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Dave Powell Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad Cenedlaethol

Russell Keith Clerc y Pwyllgor

Nichola Brown Gweinyddydd y Pwyllgor

**Eitem Agenda 1 : Sesiwn Casglu Tystiolaeth
Papurau : AC-02-01(p.1)**

Tystion

Mrs Ann Lloyd Cyfarwyddwr GIG Cymru

Mr Gren Kershaw Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych

Ms Alison Walcot Gwasanaethau Cyfraith Iechyd Cymru

Mrs Sarah Beaver Prif Swyddog Cyllid y GIG yng Nghymru

Mr Ian Biggs Cronfa Risg Cymru

1.1 Yn unol â Rheol Sefydlog 12.7, cymerodd Karen Sinclair le Peter Law. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Kirsty Williams, Alun Cairns ac Ann Jones.

1.2 Casglwyd tystiolaeth gan y Pwyllgor mewn perthynas ag adroddiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol sef *Esgeulustod Clinigol yn y GIG yng Nghymru* ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru a gyhoeddwyd ar 23 Chwefror 2001.

1.3 Bydd trawsysgrif gair-am-air o'r eitem hon yn cael ei hatodi i'r cofnodion hyn.

Eitem Agenda 2 : Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf

Papur : AC-01-01 (min)

2.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

Eitem 3 : Adroddiad Llety Drafft ar Drefniadau Llety ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru

3.1 Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o'r rhan hon o'r cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.21 (vi):

"Gall pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson;"

3.2 Cytunodd y Pwyllgor ymhellach na ddylid ystyried y swyddogion a oedd ar ymweliad o Swyddfa Archwilio Gogledd Iwerddon fel aelodau o'r cyhoedd at ddibenion y penderfyniad hwn.

3.3 Ystyriwyd yr adroddiad drafft gan y Pwyllgor a chytunwyd i'w gyhoeddi. Nododd yr aelodau, yn benodol, y pryderon a nodwyd ganddynt eisoes yn yr Adroddiad, ynglyn â'r ffaith na welwyd contract wedi'i arwyddo gyda'r penseiri hyd yn hyn.

Unrhyw Fater Arall

4.1 Nododd y Cadeirydd y byddai tystiolaeth ar *Gyfrifon Adnoddau'r Cynulliad Cenedlaethol 1999-2000* ac *Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru: Archwiliad Ariannol o Gyfrifon 1999-2000* yn cael ei chymryd yn y cyfarfod nesaf ar 29 Mawrth 2001.

4.1 Nodwyd gan y Cadeirydd y posibilrwydd o gynnal sesiwn dystiolaeth ar yr Adroddiad Esgeulustod Clinigol gydag Ymddiriedolaethau GIG yn y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 3 Mai.

4.2 Codwyd mater gan y pwyllgor ynglyn â phwy fyddai'n gyfrifol am yr atebolrwydd dros weithrediadau sifil ar ôl diddymu'r Awdurdodau Iechyd. Cwestiynodd aelodau a fyddai modd ehangu'r sesiwn dystiolaeth gydag Ymddiriedolaethau'r GIG er mwyn cynnwys diddymu'r Awdurdodau Iechyd. Cynghorodd Sir John Bourn y byddai'n fanteisiol i ganolbwyntio ar yr adroddiad. Cynigiodd ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar ddiddymu'r Awdurdodau Iechyd a'r effaith ar Ymddiriedolaethau Iechyd Gwladol, ond cynghorodd y byddai'n anodd darparu dadansoddiad i'w ddefnyddio gan y pwyllgor ar gyfer sesiwn dystiolaeth effeithiol ar hyn o bryd.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd yn dymuno cwrdd ar 3 Mai pe bai etholiadau cyffredinol y DU yn cael eu cynnal ar y dyddiad hwn. Byddai angen trefnu diwrnod gwahanol ar gyfer y cyfarfod hwn. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc ystyried hwn ar y cyd â'r Pwyllgor Busnes.

4.4 Daeth y cyfarfod i ben am 4.20pm